

Ffurflen 1 – Ffurflen hawlio cyflogeion

Taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi'i alinio â'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Rydych wedi cael y ffurflen hon am ei bod yn bosibl eich bod yn gymwys i gael y taliad o £1,498. Nodir y meini prawf cymhwysra ar gyfer y taliad hwn yn:

[Taliad ychwanegol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi alinio gyda'r Cyflog Byw Gwirioneddol | LLYW.CYMRU](#)

Os hoffech hawlio taliad o £1,498, rhaid i chi fod wedi'ch cyflogi mewn rôl gymwys ar 31 Mawrth 2022 neu wedi dechrau mewn rôl gymwys rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.

Os credwch eich bod yn gymwys, llofnodwch y datganiad ar waelod y ffurflen hon a'i dychwelyd.

Dim ond unwaith y cewch hawlio'r taliad hwn, waeth faint o rolau cymwys rydych wedi'u dal. Cynhelir gwiriadau helaeth er mwyn nodi taliadau dyblyg ac ystyrir bod ceisio hawlio'r taliad hwn fwy nag unwaith yn dwyll.

Gwneir y taliad i chi drwy gyflogres eich cyflogwr. Ystyrir bod y taliad hwn yn enillion a bydd yn agored i dreth incwm a didyniadau yswiriant gwladol.

Caiff y taliad hwn ei gynnwys hefyd yn y cyfrifiadau a ddefnyddir i bennu unrhyw fudd-daliadau a gewch, er enghraifft credyd cynhwysol, credydau treth, budd-dal tai a chymorth incwm. Defnyddir y taliad hefyd yn y cyfrifiad a ddefnyddir i benderfynu a ddylid ad-dalu unrhyw fenthyciadau i fyfyrwyr sydd heb eu talu.

Fe'ch cynghorir yn gryf i geisio cyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, eich hyfforddwr gwaith neu'ch cynghorydd benthyciadau i fyfyrwyr er mwyn deall goblygiadau'r taliad hwn i chi yn llawn.

Bydd y cynllun hwn yn darparu un taliad o £1,498 i chi. Gwneir y mwyafrif helaeth o'r taliadau hyn ym mis Mehefin 2022. Efallai y byddai'n well gennych gael y swm hwn mewn pum taliad misol o £299.60. Dim ond os ydych yn cael eich talu'u fisol a'ch bod yn dal i gael eich cyflogi gan y cyflogwr a fydd yn gwneud y taliad i chi y mae'r opsiwn talu hwn ar gael. Os byddai'n well gennych yr opsiwn hwn, nodwch hynny'n glir isod.

Dim ond cyfanswm o £1,498 yn unig y mae gennych hawl iddo. Os byddwch yn cael mwy na'r swm hwn, am unrhyw reswm, er enghraifft os byddwch yn cael dau daliad o £1,498, rhaid i chi hysbysu eich cyflogw(y)r a dychwelyd y gordaliad. Ystyrir bod methiant i wneud hynny yn dwyll.

Sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio

Os byddwch yn hawlio'r taliad ychwanegol o £1,498 ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi'i alinio â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, bydd eich cyflogwr yn rhannu gwybodaeth megis eich enw llawn, eich rhif yswiriant gwladol, y dyddiad y gwnaed y taliad i chi a'r math o rôl gymwys roeddech yn ei chyflawni gyda'r awdurdod lleol sy'n gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff y

wybodaeth hon ei rhannu hefyd â Data Cymru (sy'n gwmni llywodraeth leol) a fydd yn cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw daliadau dyblyg wedi'u gwneud.

Os hoffech wybod mwy am y ffordd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio at ddibenion gweinyddu'r cynllun a gwneud y taliad i chi, siaradwch â'ch cyflogwr.

Cwblhewch, llofnodwch a dyddiwch y ffurflen hon a'i dychwelyd i'ch cyflogwr.

Datganiad

Drwy lofnodi a dychwelyd y ffurflen hon rydych yn cytuno â'r gosodiadau canlynol:

- Hoffwn hawlio'r taliad o £1,498 ar gyfer gweithiwr gofal
- Hon yw'r unig ffurflen hawlio rwyf wedi'i chyflwyno
- Os byddaf yn cael taliad dyblyg byddaf yn hysbysu fy nghyflogwr
- Rwy'n rhoi caniatâd i'm cyflogwr roi fy enw a'm rhif yswiriant gwladol i'r awdurdod lleol at ddibenion gwneud y taliad hwn.
- Rwy'n ymwybodol y gallai'r taliad hwn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau neu gymorth treth gyngor rwy'n eu cael/ei gael ar hyn o bryd.

Dilêwch un o'r canlynol*:

- Hoffwn gael un taliad o £1,498
- Byddai'n well gennyf gael y swm hwn mewn pum taliad o £299.60 dros fisoedd olynol.

*noder mai dim ond i staff a delir yn fisol ac sy'n dal i weithio i'r cyflogwr sy'n gwneud y taliad y mae'r opsiwn i gael pum taliad o £299.60 ar gael.

Llofnodwyd:

Enw:

Rhif yswiriant gwladol:

Enw'r Cyflogwr:

Dyddiad: